

Canllawiau i Blant sy'n cael eu Mabwysiadu



VALE of GLAMORGAN



BRO MORGANNWG

Roeddwn yn arfer byw gyda fy ngofalwyr maeth Megan a Bob a'u mab Aled a'i gwningen anwes Hoppy.




Ond doedd hi ddim yn bosibl i fi aros gyda nhw am byth felly aeth fy ngweithiwr cymdeithasol, Jo i siarad â llawer o wahanol deuluoedd er mwyn cael dod o hyd i deulu a fyddai'n iawn i fi.




Dyma fy nghartref newydd lle rwy'n byw gyda fy Mam a fy Nhad newydd. Mae gennym ardd hyfryd gyda choed afalau a mwydod lle byddaf yn chwarae gyda fy ffrindiau a fy nheulu newydd.



Mae gennym gi smotiog o'r enw Pongo, cath streipiog o'r enw Tiggy a physgodyn aur o'r enw Flipper.



Pan fydd hi'n amser te, byddwn i gyd yn eistedd o amgylch y ford fawr yn y gegin er mwyn i ni gael bwyta gyda'n gilydd a siarad am y diwrnod.



Yn y nos, bydd Mam yn rhedeg bath i fi sy'n llawn byrlymau....



....a bydd Dadi'n darllen stori amser gwely cyn i fi fynd i gysgu.



Mae cael eich mabwysiadu'n
golygu eich bod yn **PERTHYN**

